Plaid Genedlaethol Cymru.

YMREOLAETH NEU AFREOLAETH.

1. LLYWODRAETH ANGHYFIAWN YW LLYWODRAETH ESTRON

Nid oes gan Lywodraeth Loegr, nag unrhyw Lywodraeth Estron arall, mo'r AMSER na'r WYBODAETH am Anghenion Arbennig Cymru, na'r CARIAD at ein Cenedl, i fedru Llywodraethu Cymru.

"Ni rydd Llywodraeth Lloegr gymaint ag un diwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd i drin materion Cymru," medd Mr Lloyd George.

"Codais faterion Cymreig yn y Tŷ Cyffredin o dro i dro; fe driniwyd hwy bob amser gyda diystyrwch haerllug," medd Major Goronwy Owen, A.S.

TESTUN CHWERTHIN YW CYMRU YN SENEDD LLOEGR

Cwawdir ein Cenedl gan ein Llywodraethwyr:—

Yn Nhy Cyffredin Senedd Lloegr: Medd Mr Greenwood: "Yn ôl deddf 1746 y mae'r gair *Lloegr* yn cynnwys Cymru" (**Chwerthin**).

Dro arall, Mr W. John: "Onid yw'r Canghellor yn tybio bod gan y Cymru hawl i'r un breintiau a chyfleusterau â'r Saeson?" (**Chwerthin**).

Eto: Mr Muggeridge, aelod seneddol Sosialaidd, yn sôn am Gymraeg: "A ydyw'r Gweinidog yn meddwl y dylid cadw'n fyw yr ieithoedd barbaraidd hyn?" (**Chwerthin**).

Rhif 127 (25/e/36). Pris 8c. y cant o Swyddfa'r Blaid Genedlaethol, Caernarfon, a'r eludiad yn ychwanegol. Argraffwyd gan O. R. Owen, Argraffty Minerfa, Caernarfon a Chyhoeddwyd gan **Blaid Genedlaethol Cymru,** Swyddfa'r Blaid, Caernarfon.

2. CYMRU YN Y GEGIN GEFN, LLOEGR YN Y PARLWR

Tlodi a Diffyg Gwaith ac Afiechyd a ddygwyd i Gymru gan Lywodraeth Estron ac Anghyfiawn

Safon Byw Isaf:

Yng Nghymru y mae'r safon byw isaf ym Mhrydain.

Diffyg Gwaith Cwaethaf:

O 1932 i 1936, bu cyfartaledd diffyg gwaith yng Nghymru rhwng 80% a 120% yn uwch nag yn Lloegr. Mehefin, 1936, Lloegr—11·6% yn ddiwaith, Cymru—30·1%.

Colli Poblogaeth:

Rhwng 1901 a 1931, allan o dair-ar-ddeg o siroedd Cymru, aeth poblogaeth wyth yn llai.

Symudodd dros 350,000 o Gymry allan o Gymru rhwng 1931 a 1935. Cynyddodd poblogaeth Lloegr 2,000,000 rhwng 1921 a 1935.

Afiechyd Gwaethaf:

i. Yn 1934, yr oedd pump o siroedd Cymru yn uwch na dim un yn Lloegr mewn marwolaethau o'r darfodedigaeth; allan o 62 sir yng Nghymru a Lloegr, yr oedd deg o siroedd Cymru ymhlith y 15 uchaf.

ii. Yn 1934 yr oedd cyfartaledd marwolaethau mamau ar esgor 55% yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr.

Dyna ffrwyth CHWERTHIN ein Llywodraethwyr

LLOEGR YN CAEL Y FFAFRAETH— CYMRU'N CAEL Y GWAETHAF

Pan ystyriwyd dau gais gan Senedd Lloegr, am grant i Eisteddfod Genedlaethol Cymru ac am grant i Opera

Genedlaethol Lloegr, CHWARDDWYD am ben cais Cymru, a rhoddwyd miloedd o bunnoedd i Opera Lloegr.

Dim Diwydiannau Newydd i Cymru :

Yn 1934, sefydlwyd 477 o ddiwydiannau newydd yn Lloegr ; yng Nghymru sefydlwyd *un* yn unig.

Ar awr gyfyng ar Lowyr De Cymru, medrodd llywodraeth Lafur Lloegr yn 1924 roddi dwy filiwn o bunnoedd i agor pyllau glo newydd yng Nghaint (Kent).

3. "MAWR ELW FYDD YMREOLAETH"

"YMREOLAETH I BOB CENEDL" yw egwyddor fawr gwareiddiad, egwyddor sylfaenol Cynghrair y Cenhedloedd.

Gormes a chulni yw gwrthwynebu rhyddid ac ymreolaeth i bob cenedl.

Senedd Cymwys :

Bydd gan Senedd Gymreig AMSER a GWYBODAETH a CHARIAD at Gymru—tri pheth hanfodol i lywodraeth gyfiawn.

Cymru'n ddigon o faint :

Y mae 16 o genhedloedd llai eu poblogaeth na Chymru yn aelodau o Gynghrair y Cenhedloedd, a pob un yn fwy llwyddiannus o lawer na Chymru.

Cymru'n gyfoethog :

Y mae Cymru'n gyfoethocach mewn adnoddau na dim rhan o'i maint ym Mhrydain.

Ymreolaeth yn Rhatach :

Y mae hunan-lywodraeth bob amser yn rhatach na llywodraeth estron.

Ymreolaeth i Achub Cymru

Ymreolaeth i sicrhau Heddwch: Dan Ymreolaeth, caiff Cymru ddilyn llwybr heddwch yn ôl ei hanian ei hun; a hefyd ei rhyddhau o gostau rhyfeloedd Lloegr, sydd yn £300,000,000 bob blwyddyn. Heb ymreolaeth, bydd Cymru ynghlwm wrth gerbyd rhyfel Lloegr.

Ymreolaeth i ddatblygu Diwydiannau: Llywodraeth Cymru a ddatblyga ddiwydiannau Cymru a sefydlu rhai newydd lawer; mae llywodraeth Loegr yn gofalu eu sefydlu yn Lloegr yn unig—477 o rai newydd yn Lloegr yn 1934 a dim ond un yng Nghymru. Dan lywodraeth Loegr, nid oes ond mwy eto o ddifodiant yn aros diwydiannau Cymru.

Ymreolaeth i achub iaith a diwylliant: Ymreolaeth yn unig a all achub iaith a diwylliant Cymru a'r Genedl Gymreig. Marw yn raddol a wnaeth iaith a diwylliant pob cenedl gaeth fel Cymru—hyd nes iddynt ennill rhyddid ac ymreolaeth.

YMUNWCH Â

PLAID GENEDLAETHOL CYMRU
i ennill rhyddid ac ymreolaeth i Gymru.

At yr Ysgrifennydd, Swyddfa'r Blaid, Caernarfon:

Hoffwn 1. wybod sut y gallaf ymuno â'r Blaid Genedlaethol.
2. gael copi enghraifft rhad o'r DDRAIG GOCH, papur misol (2c.) Cymraeg y Blaid.
3. gael copi rhad o'r papur Saesneg misol (1c.) y WELSH NATIONALIST.

Arwyddwyd .....

Cyfeiriad .....

.....

..... 193 .

Croesier allan yr hyn nad oes ei eisiau.